

PWYLLGOR CRAFFU GOFAL CYMDEITHASOL AC IECHYD

Dydd Gwener, 21 Mai 2021

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd G. Thomas (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr:

S.M. Allen, K.V. Broom, I.W. Davies, K.Davies, R.E. Evans, J.D. James (yn lle A.L. Fox), M.J.A. Lewis, K. Lloyd, K. Madge, B.A.L. Roberts, E.M.J.G. Schiavone, D. Thomas (yn lle W.T. Evans) a/ac D.T. Williams

Hefyd yn bresennol:

Y Cynghorwyr J. Tremlett, Aelod y Bwrdd Gweithredol dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd

Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:

A. Bracey, Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion
A. Williams, Pennaeth Y Gwasanaethau Integredig
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
M. Evans Thomas, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Rhith-Gyfarfod - 10.30 yb - 12.20 yp

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr W.T. Evans, A.L. Fox a B.A.L. Roberts.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATED I UNRHYW EITEM AR YR AGENDA

Y Cynghorydd	Rhif(au) y Cofnod	Y Math o Fuddiant
Kevin Madge	4. Adroddiad Diweddarau Iechyd Meddwl	Ei ferch yn gweithio yn y gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch chwip waharddedig.

3. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

[SYLWER: Dywedodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor, yn unol â Rheol 2(3) o Weithdrefn y Cyngor, ei bod yn mynd i newid trefn y materion ar yr agenda er mwyn i eitem 4 ar yr agenda, sef Adroddiad Diweddarau Iechyd Meddwl, gael ei ystyried fel yr eitem olaf ar yr agenda].

4. ADRODDIAD DIWEDDARU IECHYD MEDDWL

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i adroddiad a oedd yn rhoi datganiad sefyllfa ynghylch effaith y pandemig ar iechyd meddwl a llesiant ac yn tynnu sylw at flaenoriaethau'r gwasanaeth a datblygiadau ar gyfer y dyfodol.

Pwysleisiodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol fod yr Awdurdod yn buddsoddi mewn Iechyd Meddwl a'i fod wedi cynyddu capasiti staff gan ddefnyddio'r cyllid a gymeradwywyd gan y Cyngor. Nodwyd bod gwaith cydweithredol yn cael ei wneud gyda'r trydydd sector a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i ddatblygu Un Pwynt Cyswllt ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl. Yn ogystal, roedd y gwaith o gyflwyno'r gwasanaeth Noddfa Min Nos yn parhau ar draws rhanbarth Gorllewin Cymru.

Nodwyd bod Covid yn parhau i effeithio ar iechyd meddwl a llesiant ac y byddai llawer yn teimlo'r effeithiau parhaol. Cydnabuwyd nad oeddem eto wedi cyrraedd brig yr argyfwng iechyd meddwl a bod blaenoriaethu iechyd meddwl yn bwysicach nag erioed.

Codwyd y cwestiynau/sylwadau canlynol wrth drafod yr adroddiad: -

- Gofynnwyd sut y byddai'r Awdurdod yn ymdopi â'r galw cynyddol am wasanaethau iechyd meddwl.
Dywedwyd wrth y Pwyllgor y byddai staff ychwanegol, mentrau newydd a chydweithio yn helpu'r Awdurdod i reoli'r galw cynyddol ac y byddai'r pwyslais ar gydweithio i wella'r ddarpariaeth sydd ar gael.
- Cyfeiriwyd at y cynnydd o 136% wedi bod yn yr achosion o gysylltu â'r tîm iechyd meddwl a bod Sir Gaerfyrddin yn un o'r awdurdodau gwaethaf ar gyfer nifer yr hunanladdiadau.
Dywedodd y Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion fod yr agwedd wledig yn cael effaith ar ddynion a bod hyn yn flaenoriaeth i'r rhanbarth. Dywedwyd hefyd ei bod yn ffodus bod sefydliadau megis DPJ Foundation a Thir Dewi hefyd yn darparu cymorth.
- Gofynnwyd faint o gydweithio sy'n digwydd rhwng y gwahanol sefydliadau megis Awdurdod yr Heddlu a'r Bwrdd Iechyd ynghylch iechyd meddwl.
Dywedodd y Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion fod y gwahanol sefydliadau yn cydweithio. Nodwyd bod gwaith yn cael ei wneud ynghylch gwasanaeth ymateb i argyfwng 24/7 a fyddai'n golygu gwasanaeth y tu allan i oriau a allai gael ei gydleoli i ymateb i'r rhai mewn argyfwng.
- Cyfeiriwyd at y ffaith bod tua 325 o bobl yng Nghymru bob blwyddyn yn marw o hunanladdiad. Gofynnwyd beth oedd y duedd yn Sir Gaerfyrddin ac yn benodol gofynnwyd am y gymuned ffermio.
Dywedodd y Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion fod Sir Gaerfyrddin yn 3^{ydd} yn y tabl o ran cyfradd hunanladdiad a dywedodd mai un o flaenoriaethau'r grŵp ymgynghori cenedlaethol oedd edrych ar y data amser real. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor, er bod yr Alban yn dal yn uwch, bod y ffigurau'n gostwng a'u bod hefyd yn gostwng yn Lloegr, ond roedd yn destun pryder nad oedd hyn yn wir am Gymru. Rhoddwyd sicrwydd bod yna gynlluniau i wella mynediad i wasanaethau ymyriadau cynnar a byddai

gwasanaethau argyfwng yn cynnwys strategaethau i ymateb i hunanladdiad a hunan-niweidio yn Sir Gaerfyrddin.

- Mynegwyd pryder ynglŷn â'r materion sy'n ymwneud â chamddefnyddio alcohol a chyffuriau yn y cymunedau. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor y bu cynnydd mewn sylweddau ac alcohol yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd y bwrdd cynllunio ardal yn cynnal ymgyrchoedd ymwybyddiaeth a nodwyd bod y gweithwyr cymdeithasol a'r timau camddefnyddio sylweddau yn cydweithio'n agos i liniaru'r broblem.
- Nodwyd bod lefelau staffio wedi aros yn gymharol sefydlog yn ystod y pandemig a bod y staff wedi dangos gwytnwch anhygoel. Fodd bynnag, mynegwyd pryder ynghylch cadw staff a phwysau ar staff. Cydnabu'r Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion fod y Gweithwyr Cymdeithasol wedi bod yn wydn ond eu bod bellach wedi blino'n lân. Roedd llesiant staff wedi bod yn flaenoriaeth barhaus gyda gwahanol lwybrau cymorth ar waith.
- Gofynnwyd am ddiweddariad ynglŷn â'r amseroedd aros ar gyfer atgyfeiriadau, gan fod pryderon ynghylch rhestrau aros cyn y pandemig. Dywedodd swyddogion wrth y Pwyllgor fod cwnsela'n cael ei ddarparu gan y Bwrdd Iechyd a bod y rhestr aros yn hir yn anffodus. Fodd bynnag, roedd Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid ychwanegol ar gyfer hyn. Yn ogystal â chwnsela, roedd ffyrdd eraill o ymyrryd ac atal yn cael eu cyflwyno megis y grŵp rhedeg a gafodd ei dreialu yn 2019.
- Gofynnwyd a oedd data ar gael ynghylch nifer y bobl a oedd wedi ymweld â'u meddyg teulu cyn cyflawni hunanladdiad. Dywedwyd wrth y Pwyllgor nad oedd y data ar gael ond bod llawer o'r rheiny sy'n cyflawni hunanladdiad yn bobl nad yw'r gwasanaethau yn ymwybodol ohonynt; fodd bynnag, mae rhai wedi cyflwyno materion iechyd eraill i feddygon teulu. Dywedwyd bod meddygon teulu yn derbyn hyfforddiant a bod hwn yn un o'r blaenoriaethau cenedlaethol. Cytunwyd y gallai'r Athro Ann John (cadeirydd y Grŵp Ymgynghori Cenedlaethol) roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor am y blaenoriaethau cenedlaethol.
- Gofynnwyd pa wasanaethau oedd ar waith er mwyn helpu pobl sy'n delio â phrofedigaeth. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Integredig y bu rhai datblygiadau gan gynnwys buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru yn ystod y pandemig. Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod meysydd lle mae arfer da megis Tŷ Bryngwyn a Thŷ Cymorth ond nad oedd y gefnogaeth honno'n gyson draws y rhanbarth. Roedd Adolygiad yn cael ei gynnal gan y Bwrdd Iechyd o ofal lliniarol, a byddai gwasanaethau profedigaeth yn cael eu hystyried fel rhan o hyn.

PENDERFYNWYD bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn.

5. BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR CRAFFU GOFAL CYMDEITHASOL AC IECHYD AR GYFER 2021/22

Bu'r Pwyllgor yn ystyried ei Flaenraglen Waith ar gyfer 2021/22 a baratowyd yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor sy'n ei gwneud yn ofynnol i Bwyllgorau Craffu ddatblygu a chyhoeddi blaenraglen waith bob blwyddyn gan glustnodi materion ac adroddiadau sydd i'w hystyried mewn cyfarfodydd yn ystod blwyddyn y cyngor.

Awgrymwyd y dylid cynnwys diweddariad ar ddarpariaeth gwasanaethau dydd yn y sesiwn ddatblygu ar 7 Gorffennaf 2021.

PENDERFYNWYD cadarnhau Blaenraglen Waith y Pwyllgor Craffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd ar gyfer 2021/22.

6. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL

PENDERFYNWYD nodi'r rhestr o eitemau ar gyfer y dyfodol a oedd i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf ar 7 Gorffennaf 2021.

7. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 20FED EBRILL, 2021

PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor oedd wedi ei gynnal ar 20^{fed} Ebrill, 2021 gan eu bod yn gywir.

CADEIRYDD

DYDDIAD